Llwybr y Gymraeg – BA1A 2022-23

Darlith 4: 1.12.22

Cenedl Enwau

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

n.evans@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORIAITH

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Heddiw byddwn ni'n…

- adolygu rhannau ymadrodd a chwestiynu;
- dysgu am genedl enwau;
- dysgu am reolau gramadeg a threiglo yn ymwneud â chenedl yr enw;
- rhoi cyfle i chi feddwl am genedl enwau yng nghyd-destun llyfr stori.

Eich llais …

magu hyder

Dechrau bob sgwrs yn y Gymraeg

treiglo

ei neu **eu**?

sillafu

ymateb yn gywir i'r disgyblion



Rhan 6:
Berfenw
(verb-noun / infinitive)

Dyma ystyr neu enw'r ferf.

Berfenw / Berfenwau

Beth ydy berfenw?

Dyma ystyr neu enw'r ferf - enw'r gweithgaredd yn unig a geir e.e. ysgrifennu, darllen, gobeithio, nodi …

Mae'r berfenw'n ddau air yn Saesneg h.y. **to +** y ferf e.e. *to say, to think, to believe* a.y.y.b. ond yn y Gymraeg, dim ond y berfenw ei hun sydd ei angen, e.e. dweud, meddwl, credu …

Y berfenw sydd i'w gael yn y geiriadur.

Rhan 7:
Berf / Berfau
(verb/s)

Gair sy'n nodi **beth** sy'n cael ei wneud.

Berf / Berfau

Beth ydy berf?

Gair sy'n nodi **beth** sy'n cael ei wneud.


Mae berf yn cyflawni **tair** swyddogaeth - dangos **person** (fel arfer), **amser** a **gweithred**.

e.e. **gwelais**

y weithred yw **gweld**

fi yw'r person

yn y gorffennol y digwyddodd hyn



<u>Geiriau i'w cofio:</u>

cwmpasog (y ffurf hir) **-** y mae ef yn cerdded

cryno (y ffurf fer) **-** cerdda ef

Berf / Berfau



Ceir chwe pherson i bob berf:

UNIGOL	LLUOSOG
1. fi	1. ni
2. ti	2. chi
3. ef/hi	3. nhw



Rhan 8:
Adferf / Adferfau
(adverb/s)

Gair sy'n disgrifio berf, ansoddair neu adferf arall.

Adferf / Adferfau

Beth ydy adferf / adferfau?

Gair sy'n disgrifio **berf, ansoddair neu adferf arall.** Maent yn ateb y cwestiynau:

Sut? Ble? Pryd? Pam?

Enghreifftiau:

penderfynwyd **yn unfrydol** (ychwnaegu at ein gwybodaeth am y ferf “penderfynu”)

yn **eithaf** pwysig (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr ansoddair “pwysig”)

unwaith **eto** (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr adferf “unwaith”)

Adferf / Adferfau

Gellir ffurfio adferf drwy roi **yn** o flaen ansoddair e.e.

Gweithiodd y pennaeth **yn gyflym**.

Mae **yn gyflym** yn disgrifio **gweithiodd** ac mae'n ateb y cwestiwn: **Sut?**

Cyrhaeddodd Huw y cyfarfod **yn hwyr.**

Mae **yn hwyr** yn disgrifio **cyrhaeddodd** ac yn ateb y cwestiwn: **Pryd?**

Rhan 9:
Bannod (y fannod)
(the article)

Gair sy'n gwneud enw'n benodol.

Bannod (Y Fannod)

Beth yw'r fannod?

Gair sy'n gwneud enw'n **benodol** yw bannod a cheir tair ffurf ar y fannod bendant yn y Gymraeg: **y, yr 'r** (sef **the** yn Saesneg). Ni cheir bannod amhendant yn y Gymraeg - h.y. ***a*** neu ***an*** yn Saesneg.

e.e. **y** bobl

yr amser a**'r** ymdrech

Mae**'r** disgybl yn gweithio'n gyson.



CHWAP!



Ydych chi'n barod?

Pa un yw'r enw?

ysgrifennu

cadair


Adolygu Rhannau Ymadrodd



Pa un sy'n eithriad?

athrawes
disgybl
desg
llyfr
pensiliau





Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.				
Rwy'n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi'r hyn yr wyf yn ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi. Rwy'n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa.	Rwy'n gallu esbonio gwybodaeth a rhannu syniadau, barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol.	Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau at wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch.	Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch.
Rwy'n dechrau deall y gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.	Rwy'n gallu siarad er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol. Rwy'n gallu ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus, amrywiol a manwl gywir.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu.	Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyrraedd ethogi fy mynegiant.	Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau.

Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd . . .

Llythrennedd: Siarad

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau.	Rwy'n gallu datblygu ac addasu fy ngeirfa drwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.	Rwy'n gallu myfyrio ar safon fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu llafar, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd ffurfiol.
Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu.	Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol ac yn gynyddol fanwl gywir.	Rwy'n gallu gwneud dewisiadau priodol am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac yn eglur.
Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum.	Rwy'n gallu amrywio'r math o frawddegau rwy'n eu defnyddio yn fy iaith lafar.	Rwy'n gallu mynegi materion a syniadau'n glir gan ddefnyddio geirfa sy'n benodol i faes dysgu a phrofiad/disgyblaeth ac enghreifftiau.

Cysylltiad â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd . . .

Cam cynnydd 1	Cam cynnydd 2	Cam cynnydd 3
	Rwy'n gallu adnabod y seiniau sydd yn aml yn newid ar ddechrau geiriau a chymhwyso'r newidiadau hynny mewn rhai cyd-destunau lle y bo angen treiglo, *e.e. yn gyflym, digon o le*.	Rwy'n gallu adnabod geiriau sydd wedi eu treiglo, ac yn gallu cymhwyso'r newidiadau hynny mewn llawer o gyd-destunau gorfodol, gan gynnwys: • treiglad meddal ar ôl 'ei' gwrywaidd, *e.e. ei goes ef*, ac ar ôl nifer o arddodiaid • treiglad meddal (heblaw am ll a rh) ar ôl 'yn' traethiadol, *e.e. yn gyflym* • treiglad trwynol ar ôl 'fy', *e.e. fy nghoes i*, ac ar ôl yr arddodiad 'yn', *e.e. yng Nghaerffili* • treiglad llaes ar ôl 'ei' benywaidd, *e.e. ei choes hi*, ac ar gyfer enwau gyda chyfeiryddion dynol.

Beth ydy ‘enw’?

- Enw (noun) ydy peth / gwrthrych.
- Fel arfer mae’n rhywbeth ry’n ni’n gallu ei weld e.e. cadair, llyfr, drws.
- Mae enwau haniaethol yn rhai dydyn ni ddim yn gallu eu gweld e.e. cariad, hiraeth.

Enwau…

Yn y Gymraeg, fel y Ffrangeg (ac ieithoedd eraill), mae pob enw naill ai'n wrywaidd neu'n fenywaiddneu'n lluos og.

Bydd y geiriadur yn dweud wrthyn ni ydyn nhw'n fenywaidd neu'n wrywaidd…

coeden

eb

tree


Geiriadur Cyffredinol Cysgair

ci

eg

dog

Geiriadur Cyffredinol Cysgair



Pwy sy'n cofio pam bod cenedl enwau yn **bwysig**?


- Nodwch eich syniadau ar y byrddau gwyn.





Rhybudd!

Mae rhai enwau'n gallu bod yn fenywaidd neu'n wrywaidd…



Cofiwch hefyd feddwl am <u>genedl y gair</u> yn hytrach na'r person,

e.e. disgybl *eg* plentyn *eg*

pennaeth *eg* bardd *eg*

Wrth gwrs bydd gan rai enwau ffurfiau benywaidd a gwrywaidd e.e. awdur / awdures

Cenedl enwau

Er gwybodaeth, mae cenedl rhai geiriau yn amrywio yn ôl ardal neu dafodiaith.

Er enghraifft, mae'r gair *munud* yn tueddu i fod yn wrywaidd yn y Gogledd ac yn fenywaidd yn y De.

Gogledd – dau funud; y munud hwnnw

De – dwy funud; y funud honno

Tasg: Crëwch dabl tebyg i'r un isod ar bapur.

Ysgrifennwch 12 enw unigol fyddech chi'n gweld mewn ystafell ddosbarth.

Ydy'r enw yn:


enw benywaidd?
enw gwrywaidd?

Gallwch ddefnyddio eiriadur.





Defnyddiwch eiriadur… enw gwrywaidd neu enw benywaidd?











eg = enw gwrywaidd **eb = enw benywaidd**

Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae'n rhaid i ni wybod pryd a sut i'w defnyddio!
- Mae'n dangos pryd y dylwn dreiglo.



e.e.

- treiglo ar ôl 'y'
- treiglo ansoddair: adeilad 'mawr' neu 'fawr'?
- Hwn neu hon? Y llyfryn 'hwn' neu 'hon'?

Y Treiglad Meddal

Cysefin	Treiglad meddal
P	B
T	D
C	G
B	F
D	Dd
G	/
Ll	L
M	F
Rh	R

Defnyddio ‘y’ / ‘r *(the)*

y + enw benywaidd unigol

<u>Treiglad meddal</u> ar ôl ‘y’ *:*

y gadair
y brifathrawes
y daith
y wers
y freuddwyd

y ddawns
y fam

OND: X **ll / rh**

y **ll**ygoden fawr
y **rh**aglen deledu

y + enw gwrywaidd

DIM treiglad

y cwrs	y gliniadur	y llyfr
y papur	y bwyd	y mwydyn
y trên	y drws	y rhedwr

y + enw lluosog

DIM treiglad = DIM CENEDL/ *GENDER*

y cadeiriau	y gwersi	y llygod
y pensiliau	y bwydydd	y merched
y teithiau	y dogfennau	y rhaglenni

Treiglo + cenedl enwau

Rhowch ‘y’ o flaen bob un o’r enwau canlynol. Beth sylwoch chi?






penderfyniad	problem
tad	tudalen
cyfrifiadur	cacen
bws	brawddeg
drws	dogfen
geiriadur	gwraig
llyfr	llinell
mynydd	mynedfa
rhew	rhestr


Cyfieithwch…

- the pupil
- the desk
- the cat
- the sheet (taflen)
- the husband
- the girls
- the lessons



Rhifo + cenedl enwau



		
1	un ci	un gath
2	dau gi	dwy gath
3	tri chi	tair cath
4	pedwar ci	pedair cath
5	pum ci	pum cath
6	chwe chi	chwe chath

Beth ydy'r rheolau?

Gwrywaidd



Dim treiglad ar ôl 'y':


y **b**achgen
y **c**oleg
y **d**rws

Ansoddair ddim yn treiglo ar ôl enw gwrywaidd:

y bachgen **da**
y coleg **mawr**
y drws **melyn**

Rhifau Mr + y gair:

dau + TM
tri + TLl
pedwar + x



Benywaidd

Treiglad meddal ar ôl 'y':

y ferch
y ddesg
y gath

Ond x 'll/rh' – y rhaglen

Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd

y ferch **glyfar**
y ddesg **fawr**
y gath **ddu**

Rhifau Mrs + y gair:

dwy + TM
tair + X
pedair + X

Byddwch yn ofalus gydag enwau benywaidd sy'n dechrau gyda <ll> neu <rh>…

Ni threiglwn *ll* na *rh* – rhaid cofio hyn, ar ôl...

y
un
yn
mor
cyn

y llygoden (*eb*)
y rhestr (*eb*)

Beth sydd yn y lluniau?








shutterstock.com • 580370026




shutterstock.com · 328029125






shutterstock.com • 655730701

Rhifo + cenedl enwau



		
1	un ci	un gath
2	dau gi	dwy gath
3	tri chi	tair cath
4	pedwar ci	pedair cath
5	pum ci	pum cath
6	chwe chi	chwe chath

Beth ydy'r rheolau?

Cenedl enwau: hwn / hon

- Y ferch hon
- Y ddesg hon



- Y bachgen hwn
- Y bwrdd hwn



- Y llyfrau hyn



Disgrifio gwrthrychau

Pan fydd ansoddair yn disgrifio enw benywaidd bydd yn **treiglo'n feddal**…

merch + tal = merch **d**al

bachgen + tal = bachgen tal

nofel + da = nofel **dd**a

llyfr + da = llyfr da

Ond: merched + pwysig = merched pwysig

Disgrifio eto

Bydd gan rai ansoddeiriau ffurfiau benywaidd a lluosog i'w defnyddio wrth ddisgrifio enwau benywaidd ac enwau lluosog.

het **w**en



deilen **w**erdd



adar **gl**eision



Ansoddeiriau benywaidd eraill…

melyn > melen

dwy seren **f**elen




tlws > tlos

y fodrwy **d**los



byr > ber

rhestr **f**er



dwfn > dofn

yr afon **dd**ofn






Edrych ar destun...

Darllenwch rhan o'r llyfr stori "Coeden Cadi".

Wrth ddarllen y geiriau canlynol, **sut** rydych chi'n dysgu beth ydy cenedl yr enw?

- byddai'r goeden
- brawd bach
- y drefn
- merch fach benderfynol
- diwrnod gwyntog



Sut ydyn ni'n gwybod ydy enwau'n fenywaidd neu'n wrywaidd?



Beth am ddefnyddio ambell gliw?

Mae'r terfyniadau (*word endings*) hyn fel arfer yn fenywaidd ...


- -aeth (barddoniaeth *poetry)*
- -fa (campfa *gym)*
- -en (seren *star)*
- -ach (cyfrinach)
- - as (cymwynas)
- -es (ysgrifenyddes *secretary*)
- -ell (llinell *line*)
- -eb (anfoneb *invoice*)
- -eg (dameg)

Mae'r terfyniadau (*word endings*) hyn fel arfer yn wrywaidd ...

- -awd (traethawd *essay*)
- -aint (maint *size*)
- -tid/did (ieuenctid *youth*)
- -rwydd (distawrwydd *silence*)
- -adur (cyfrifiadur)
- -wr (chwaraewr *player)*
- -edd (mawredd *greatness*)
- -yn (offeryn *instrument*)
- -iad (mynediad *entrance)*
- -deb (undeb *union*)

Beth ydy cenedl yr enwau canynol?


rheol	**amserlen**	**llyfr**	**pennod**	**arbrawf**	**wythnos**
cadair	**bwrdd**	**tudalen**	**brawddeg**	**camgymeriad**	**cloch**
cofrestr	**clawr**	**ysgol**	**cwestiwn**	**cyfrifiadur**	**dogfen**
tasg	**ffeil**	**disgybl**	**llinell**	**dosbarth**	**diwrnod**
gair	**plentyn**	**gwers**	**taflen**	**ffilm**	**prawf**


Beth yw'r rheolau sy'n rhaid i ni eu cofio?

Chwap!



Pa un sy'n gywir?



Y canolfan

Pam?

Tasg: Adolygwch y rheolau yma a meddyliwch am enghreifftiau perthnasol ohonynt byddech chi'n eu defnyddio neu'n eu clywed yn yr ysgol. Sut byddech chi'n eu cyflwyno yn eich dosbarth chi?

Gwrywaidd

Dim treiglad ar ôl 'y':

y **b**achgen
y **c**oleg
y **d**rws

Ansoddair ddim yn treiglo ar ôl enw gwrywaidd:

y bachgen **da**
y coleg **mawr**
y drws **melyn**

Rhifau Mr + y gair:

dau + TM
tri + TLl
pedwar + x

Gwr neu Ben?

Benywaidd

Treiglad meddal ar ôl 'y':

y ferch
y ddesg
y gath

Ond x 'll/rh' – y rhaglen

Ansoddair yn treiglo'n feddal ar ôl enw benywaidd

y ferch **glyfar**
y ddesg **fawr**
y gath **ddu**

Rhifau Mrs + y gair:

dwy + TM
tair + X
pedair + X

Trafodwch …

Benywaidd/ Gwrywaidd: pwysigrwydd cenedl enw

ADRODDIAD- eg


- Treuliwyd chwe mis yn rhoi'r adroddiad **hwn** at ei gilydd.
- Mae'n adroddiad **c**ynhwysfawr, **d**iddorol ac eang **ei apêl**.
- Bydd pawb sy'n **ei ddarllen** yn cael budd mawr **ohono**.


DOGFEN- eb


- Treuliwyd chwe mis yn rhoi'r ddogfen **hon** at ei gilydd.
- Mae'n **dd**ogfen **g**ynhwysfawr, **ddi**ddorol ac eang **ei hapêl**
- Bydd pawb sy'n **ei darllen** yn cael budd mawr **ohoni**.

Adnodd defnyddiol











https://gwellar-gair.peniarth.cymru/

Gair o gyngor ….

Pan fyddwch yn gorfod edrych mewn geiriadur dro ar ôl tro, gwnewch dabl fel hyn i'ch helpu chi …

enw benywaidd	ebg	enw gwrywaidd







Darlith nesaf:

12.1.2023
am 11yb
yn
CJ6